**Crynodeb o hunan arfarniad o Addysg Grefyddol yn Ysgol Y Gorlan, Tremadog Cynradd**

(Gweler canllawiau pynciol Ffeil Hunan Arfarnu CYNNAL 2005)

| **Cwestiwn 1 : Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a dadansoddiad o asesiadau athrawon. |
| **Barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr Gradd: 1** |
| Mae disgyblion yr ysgol ar draws yr ystod oedran yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gredoau ac arferion crefyddol ac o brofiadau bywyd a'r cwestiynau a godir ganddynt ac hefyd yn medru gwerthuso ac ymateb i grefydd ac i brofiadau bywyd. Rhoddir cyfle i'r disgyblion ymweld ag addoldy lleol er mwyn cynnal gwasanaeth yn flynyddol a chânt gyfle hefyd i ymweld ag addoldy fel rhan o waith thema penodol, e.e y bedydd, ac i ddysgu am waith arwenydd crefyddol lleol. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw dros y ddwy flynedd nesaf?** |
| Er mwyn sicrhau bod ein Cynlluniau Gwiath yn cydymffurfio â'r gofynion diweddaraf, mae'r Cydgysylltydd Addysg Grefyddol wedi cofrestru ar gyfer mynychu cwrs Hyfforddiant Clwstwr 'Gofynion Maes Llafur Cytûn newydd Gwynedd a Môn'. Rhagwelir y byddwn yn addasu rhywfaint ar ein cynlluniau er mwyn rhoi sylw ychwanegol i ambell agwedd megis codi a thrafod cwestiynau. |

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.**

| **Cwestiwn 2 : Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a gwerthusiad o gyfnodau addoli ar y cyd a gwersi ABCh.<br>• Disgwylir cyfeiriad yma at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. |
| **Barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth Gradd : 1** |
| Rhoddir sylw i ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgyblion nid yn unig trwy baratoi gwersi Addysg Grefyddol ac ABCh addas ar eu cyfer ond hefyd trwy roi profiadau eang a gwerthfawr iddynt y tu allan i'r gwersi ffurfiol hynny. Caiff pob dosbarth gyfle yn rheolaidd i baratoi a chyflwyno gwasanaeth gerbron gweddioll yr ysgol. Cynhelir gwasanaethau dosbarth yn ddyddiol pan roddir cyfle i'r disgyblion arwain yr addoliad trwy weddi. Adroddir gras bwyd a'r fendith yn ddyddiol. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw yr ysgol dros y flwyddyn nesaf?** |
| Gyda dyfodiad ABCh i'r daflen amser yn ystod y blynyddoedd diweddar, rhagwelir mai un o'r prif fwriadau fydd ceisio sicrhau bod amcanion clir i'r gwersi Addysg Grefyddol ac ABCh fel y gellir gweld lle mae'r ddau bwnc yn gorgyffwrdd ac yn gwahaniaethu. Bwriedir parhau i gymryd pob cyfle i gyfoethogi addysg y disgyblion, e.e trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol i gynnal gwasanaethau ac i rannu profiadau. |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwbwlhau'r arfarniad: 24/06/2008** | |
| **Arwyddwyd: Rhys M Glyn**<br>**(Pennaeth)** | |